



CYNGOR DINAS BANGOR

PROTOCOL AR DDEFNYDD CYFRYNGAU **CYMDEITHASOL GAN Y CYNGHORWYR**

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ddull pwysig o gyfathrebu yn ein cymdeithas heddiw ac mae'n newid y ffordd y mae pobl yn cyfathrebu a rhwydweithio. Mae'r newid hwn yn cynnig llwyfan newydd ar gyfer ymgysylltu, cyfathrebu a gwranddo. O ganlyniad, mae'n naturiol fod y newid hwn yn effeithio ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cysylltu â phoblogaeth y Ddinas a hefyd y ffordd y mae'r Cyngorwyr yn gweithredu.
- 1.2 Mae Cyngor y Ddinas yn croesawu defnydd cynyddol yr Aelodau o'r cyfryngau cymdeithasol ac yn dymuno hwyluso hyn drwy roi cyngor a chefnogaeth briodol. Yn ddiweddar mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu canllawiau ar yr hyn sydd, ac nad yw'n dderbyniol ac fe'i hystyrir yn briodol i Gyngor y Ddinas ddilyn yr arweiniad hwn a mabwysiadu protocol tebyg. Mae'r protocol yma felly yn darparu cyfarwyddiadau ac yn ategu'r rheolau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig. Yn amlwg, y sefyllfa sylfaenol yw bod yr un safonau ymddygiad yn berthnasol os yw aelod ar-lein ai peidio.

2.0 Y CYFLEOEDD A'R PERYGLON

- 2.1 Mae datblygiad y Cyfryngau Cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag etholwyr a cheisio ymateb ganddynt. Mae'r gwahanol ddulliau (Facebook, Trydar, Blogiau ayb) yn cynnig ffordd sydyn, rad ac effeithiol o wneud hynny. Mae Cyfryngau Cymdeithasol yn rhoi defnyddwyr ar flaen y gad o ran newyddion sy'n torri. Maent hefyd yn ffordd o alluogi cysylltiad gyda'r rhai a fyddai, efallai, heb gael unrhyw gysylltiad blaenorol â phrosesau democrataidd.
- 2.2 O ganlyniad, maent yn darparu cyfryngau a all fod yn ddefnyddiol iawn i'r Cyngor yn gorfforaethol a hefyd i Gyngorwyr Lleol. Gyda'r defnydd cywir o Gyfryngau Cymdeithasol, gall Cyngorwyr elwa'n fawr ac mae'r Cyngor yn annog defnydd priodol gan Gyngorwyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u defnydd. Gall cam-ddefnyddio'r cyfryngau hyn arwain at

anawsterau cyfreithiol sylweddol ac mae'r Twrnai Cyffredinol wedi cyhoeddi canllawiau sy'n ceisio osgoi hynny (gweler <https://www.gov.uk/government/news/attorney-general-to-warnfacebook-and-twitter-users-about-contempt-of-court>).

3.0 EGWYDDORION SYLFAENOL

- 3.1 Yr egwyddor sylfaenol yw bod y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, Rheolau Sefydlog y Cyngor a Pholisi'r Wasg a'r Cyfryngau (gweler atodiad 2) yn berthnasol i bob gweithgaredd, yn cynnwys y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol. Felly, rhaid i ymddygiad Aelodau wrth ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol gadw at yr un safonau o ymddygiad ag y byddent yn eu dilyn mewn Pwyllgor, Cyfarfod Cyhoeddus neu mewn gohebiaeth.
- 3.2 Felly, yn ychwanegol at y dyletswyddau cyfreithiol cyffredinol, dylid cadw'r egwyddorion canlynol mewn cof:-
- Dangos parch at eraill
 - Peidio â datgelu gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol
 - Dim bwlio, aflonyddu, erlid neu fygwth cyd-gynghorwyr, swyddogion neu aelodau o'r cyhoedd.
 - Peidio â cheisio elwa'n bersonol
 - Cofio egwyddorion cydraddoldeb
 - Peidio â phenderfynu ar faterion o flaen llaw.
 - Dim ysgogi ymddygiad yn groes i'r protocol hwn gan eraill
 - Peidio â bod yn rhan o fendeta personol yn erbyn eraill

4.0 Y CYFRIFOLDEB DROS "GYNNWYS"

- 4.1 Un gwahaniaeth mawr rhwng y cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill yw bod perchennog y "safle" yn gyfrifol nid yn unig am ei ddatganiadau ei hun ond hefyd am ddatganiadau a wnaed gan eraill ar y safle hwnnw. O ganlyniad, os oes datganiadau amhriodol yn cael eu gwneud, mae perchennog y "safle" yn gyfrifol am dynnu'r datganiadau hynny yn ôl.
- 4.2 Yn ychwanegol, unwaith y mae rhywbeth yn cael ei bostio ar safle cyfryngau cymdeithasol, mae yn y parth cyhoeddus. Bydd y Cyngor, yn ôl yr angen, yn gofyn i aelodau dynnu unrhyw gynnwys sy'n groes i'r protocol hwn a bydd methu â gwneud hyn yn torri'r protocol. Fodd bynnag, dylai aelodau fod yn ymwybodol, unwaith ei fod yn y parth cyhoeddus, mae'n anodd tynnu cofnod yn ôl, boed hynny'n ffaith neu'n farn, a gallai hynny arwain, yn y pen draw, at gamau cyfreithiol.

5.0 TRAFODAETHAU "GWLEIDYDDOL"

- 5.1 Gall trafodaethau lleol "gwleidyddol" fod yn gadarn a heriol. Tra bod yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn derbyn bod yn rhaid i aelodau fagu "croen trwchus" gan fod beirniadaeth o syniadau a barn yn rhan o ddadl ddemocrataidd, mae'r Cod Ymddygiad yn dangos yn glir fod yn rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyried eraill ac

na ddylai neb fod yn sarhaus na'n ddilornus. Mae'r protocol hwn yn cadarnhau fod y safonau yna yn berthnasol i Aelodau wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

6.0 Y CYNGHORYDD FEL UNIGOLYN

6.1 Gall Cynghorydd sefydlu gwefan yn ei enw ei hun neu fel 'Cynghorydd*****'. Dylai aelodau fod yn ymwybodol fod y protocol hwn yn berthnasol i'r naill sefyllfa neu'r llall. Gan ei bod yn glir fod y ffaith fod unigolyn yn cael ei ethol yn Aelod yn wybodaeth gyhoeddus, dylai Aelod fod yr un mor ofalus mewn unrhyw sefyllfa yn ymwneud â'r cyfryngau. Mae'r graddau y mae'r protocol hwn yn briodol yn dibynnu ar y pwnc ond mae'r safonau ymddygiad yr un peth.

7.0 DEFNYDD MEWN CYFARFODYDD

7.1 Mae Rheolau Sefydlog y Cyngor yn ei gwneud yn glir, er y cyfyngiad ar dynnu lluniau, recordio, darlledu neu drosglwyddo trafodion cyfarfod drwy unrhyw fodd a nodir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, caniateir hyn os yw'r Cyngor yn rhoi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Fodd bynnag, dylai Cyngorwyr ystyried a yw'n briodol iddynt ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol mewn cyfarfodydd Cyngor a'i bwyllgorau oherwydd mae'n rhaid cofio:-

- dylai prif ffocws Aelod mewn cyfarfodydd o'r fath fod ar y drafodaeth gerbron a'r penderfyniad sydd i gael ei wneud;
- canfyddiad gan y cyhoedd fod trydar yn tynnu sylw Aelod o'i gyfrifoldebau ef/hi mewn cyfarfod;
- ni ddylai gwybodaeth eithriedig a chyfrinachol gael ei thrydar;
- ni ddylai manylion cyfarfod gael eu trydar.

8.0 DELIO Â CHWYNION AM DORRI'R PROTOCOL.

8.1 Dylai unrhyw gwynion sy'n cyfeirio at y protocol gael eu hanfon i Swyddog Priodol y Cyngor. Cyfeirir toriadau difrifol neu gyson o'r Protocol i'r Swyddog Monitro ac os ystyrir bod hynny'n briodol, i Bwyllgor Safonau Gwynedd ar gyfer gweithredu.

Gwyn Hughes
Clerc y Dref

Hydref 2014